

# Halen y Ddaear



Salt of the Earth • Week of Prayer for Christian Unity

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)



Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2016



Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Cyngor Eglwysi'r Byd wedi cyhoeddi "The Church: Towards a Common Vision". Mae'r ddogfen yn ein gwahodd i gyd i drafod a myfyrio gyda'n gilydd ynghylch beth mae'n ei olygu i fod yn eglwys yn y byd, o ran ein taith i undod a'n cenhadaeth i'r byd. Eto i gyd, mae'n dod yn ffasiynol bron i awgrymu mai agenda ddoe oedd undod Cristnogol tra bod agenda heddiw ac yfory'n ymwneud â chenhadaeth. Fel petai'r ddau beth yn hollol annibynnol ar ei gilydd!

Ledled cenhedloedd Prydain ac Iwerddon mae enghreifftiau di-rif o sut mae'r eglwysi ynghyd yn gweithio ac yn gweddio am undod ac yn dod at ei gilydd mewn gwasanaeth i'w cymuned ac mewn cenhadaeth ac efengyliaeth. Mae undod a chenhadaeth yn rhan o'r un hanfod.

Mae eglwysi Latfia wedi dod â'r materion hyn i'n sylw ar gyfer ein myfyrdod yn yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni. Maen nhw'n ein cyfeirio at eiriau Iesu yn Efengyl Mathew sy'n dweud wrthym ein bod, fel ei ddisgyblion, i fod yn oleuni i'r byd, ac yn halen y ddaear: yr union bethau hynny na allwn ni fel bodau dynol fyw hebddyn nhw. Ac felly heb yr Efengyl, heb yr addewid o'r newyddion da am gariad Duw yng Nghrist, mae'r byd yn golledig.

Eleni, rydym yn cael y cyfle i fyfyrto ar ein galwedigaeth Gristnogol i fod yn halen a goleuni, i fod yn un yng Nghrist, ac i weithio gyda'n gilydd mewn gwasanaeth i'n cymuned leol ac i'r byd. Fel eglwysi Latfia, fe fydd gennych chi eich stori arbennig i'w hadrodd. Rwy'n gobeithio y byddwch yn rhannu eich straeon yn hyderus ac yn cael eich cyfoethogi gan y straeon y bydd pobl eraill yn eu hadrodd.

*Y Parchg Bob Fyffe, Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwysi Ynghyd ym Mbrydain ac Iwerddon*

## Cyflwyniad i thema eleni

Deunydd y flwyddyn hon, wedi ei baratoi i'w ddefnyddio ledled y byd gan Gristnogion Latfia

*Ond yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef. A chi gynt heb fod yn bobl, yr ydych yn awr yn bobl Dduw; a chi gynt heb dderbyn trugaredd, yr ydych yn awr yn rhai a dderbyniodd drugaredd.*

(1 Pedr 2:9-10).

### Cefndir

Anogaeth i rai sydd newydd eu bedyddio i fyw bywyd sanctaidd a geir yn epistol cyntaf Pedr. Mae'r bedyddfaen hynaf yn Latfia yn dyddio o gyfnod yr efengylwr mawr Latfiaidd, Sant Meinhard. Yn wreiddiol lleolwyd y bedyddfaen yn ei Eglwys Gadeiriol ef yn Ikškile. Heddiw, mae'n sefyll yng nghanol yr Eglwys Gadeiriol Lutheraidd ym mhrifddinas y wlad, Riga. Mae lleoliad y fedyddfaen mor agos at bulpud addurnedig yr Eglwys Gadeiriol yn datgan yn huawdl y berthynas rhwng





Y bedyddfaen yng nghorff yr eglwys yn  
Eglwys Gadeiriol Lutheraidd Rega

The font in the nave of Riga's Lutheran Cathedral

During the past year the World Council of Churches has published *The Church: Towards a Common Vision*. It invites us all to discuss and reflect together what it means to be the Church in the world, both in terms of our journey to unity and our mission to the world. Yet, it is becoming almost fashionable to suggest that Christian unity is the agenda of yesterday whereas today's and tomorrow's agenda is about mission. As though the two were mutually exclusive!

Throughout the nations of Britain and Ireland there are countless examples of how the churches together are working and praying for unity and coming together in service to their community and in mission and evangelism. Unity and Mission belong together.

The Churches of Latvia have brought these matters forward for our reflection in this year's Week of Prayer

for Christian Unity. They draw attention to the words of Jesus in Matthew's Gospel which tells us that as his disciples we are to be light to the world, and salt of the earth: the very things that as human beings we cannot live without, and therefore without the Gospel, without the promise of the good news of God's love in Christ, the world is lost.

This year we are given the opportunity to reflect upon our Christian vocation to be salt and light, to be one in Christ, and to work together in service to our local community and to the world. Like the churches of Latvia you will have your particular story to tell. I hope that you will share your stories with confidence and be enriched by the stories that others tell.

**Revd Bob Fyffe, General Secretary,  
Churches Together in Britain and Ireland**

## Introduction to this year's theme


This year's material, was prepared for worldwide use by the Christians of Latvia

*You are a chosen race, a royal priesthood, a holy nation, God's own people, in order that you may proclaim the mighty acts of him who called you out of darkness into his marvellous light. Once you were not a people, but now you are God's people; once you had not received mercy, but now you have received mercy.*

(1 Peter 2:9-10).

### Background

Peter's first letter is an encouragement to the newly baptised to live holy lives. The oldest baptismal font in Latvia dates from the time of the great evangeliser of Latvia, St Meinhard. It was originally located in his Cathedral in Ikšķile. Today it stands at the very centre of the Lutheran Cathedral in the country's capital, Rīga. The placement of the font so near to the Cathedral's ornate pulpit speaks eloquently of the relationship between baptism and proclamation, and the calling



Dŵr ym mowlen bedyddfaen eglwys Sant Meinhard bellach yn Riga

Water in the bowl of St Meinhard's font now in Riga

bedydd a chyhoeddi, a'r alwad sy'n perthyn i bawb a fedyddiwyd i gyhoeddi gweithredoedd ardderchog yr Arglwydd. Yr alwad hon sy'n ffurfio'r thema ar gyfer Wythnos Weddi am Undod Cristnogol 2016.

Daethpwyd â Christnogaeth i Ddwyrain Latfia am y tro cyntaf yn y 10fed ganrif gan genhadon Bysantaidd. Mae stori Latfia'n cynnwys cenhadaeth efengylu Sant Meinhard ddwy ganrif yn ddiweddarach, a chenhadon eraill o'r Almaen. Riga oedd un o'r dinasoedd cyntaf i fabwysiadu syniadau Luther yn ystod y 16eg ganrif. Yn y 18fed ganrif, adfywiwyd a dyfnhawyd y ffydd Gristnogol drwy'r wlad gan genhadon Morafaidd. Byddai eu disgynyddion yn chwarae rôl ganolog wrth osod y sylfeini ar gyfer annibyniaeth genedlaethol yn y flwyddyn 1918.

Yn ystod y Rhyfeloedd Byd a'r Rhyfel Oer, roedd Cristnogion yn unedig mewn tystiolaeth gyffredinol i'r Efengyl - hyd yn oed at ferthyrdod. Fe wnaethon nhw ganfod eu rhan yn yr offeiriadaeth frenhinol a grybwyllwyd gan Sant Pedr trwy oddef artaith, alltudiaeth a marwolaeth oherwydd eu ffydd yn Iesu Grist. Creodd yr uniad hwn o ddiodeffaint gymunedeb dwfn ymysg Cristnogion yn Latfia. Trwyddo, fe wnaethon nhw ganfod eu hofferiadaeth fedyddiol, a thrwy hynny roedd modd iddyn nhw offrymu eu diodeffiadau mewn undod â diodeffiadau Iesu, er lles pobl eraill. Roedd yr eglwysi Cristnogol yn arweinwyr ym mudiad yr annibyniaeth o'r flwyddyn 1991 pan gododd dinasyddion diarfog rwystrau ar strydoedd Riga a sefyll ysgwydd wrth ysgwydd â'i gilydd yn herfeiddiol yn wyneb tanciau milwrol Sofietaidd.

Heddiw, mae Latfia'n groesffordd lle mae rhanbarthau Pabyddol, Protestannaidd ac Uniongred yn cyfarfod.

Oherwydd y lleoliad unigryw hwn, mae'n gartref i Gristnogion o lawer traddodiad gwahanol, ond nid oes yr un ohonyn nhw'n drechol.

Wedi eu dwyn ynghyd gan Archesgob Riga, gofynnwyd i nifer o wahanol gymunedau a phrosiectau eglwysig yn Latfia fyfyrion ar y thema ddewisedig a phrofiad eu gwaith. Cafodd pob un o'r dyddiau eu paratoi gan un o'r cymunedau eglwysig amrywiol hyn. Caiff yr 8 Diwrnod eu clymu ynghyd yn bennaf â'r profiad o fod yn Gristion yn Latfia. Mae'r awduron o Latfia'n gobeithio y bydd eu profiad o fyw'r ffydd Gristnogol yn llefaru â'n ffydd ni. Ysbrydolir y prif wasanaeth gan adnodau o epistol Pedr a throsiadau'r Iesu o halen a goleuni sy'n themâu diwylliannol pwysig i Latfia.

### Y llyfryn hwn

Ysbrydolir y deunydd a gynhwysir yn y llyfryn hwn gan yr eglwysi Latfiaidd. Eu geiriau hwy yw'r Llithoedd a'r cyflwyniadau sydd mewn blychau. Mae'r rhannau sy'n cynnwys y Myfyrdodau, y Gweddïau, y Cwestiynau a'r 'Mynd a Gwneud', yn ffrwyth gwaith y grŵp ysgrifennu o Brydain ac Iwerddon, ac yn seiliedig ar ddeunydd adnoddau'r eglwysi Latfiaidd. Bwriad y Myfyrdodau yw ysgogi trafodaeth. Gall fod yn help i ddarllenwyr wybod eu bod wedi eu hysgrifennu oddi mewn i'r traddodiadau eglwysig y maen nhw'n eu herio.

Er mwyn dod o hyd i ragor o wybodaeth am Ddiwylliant a Hanes Latfia edrychwch ar wefan yr Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)





shared by all the baptised to proclaim the mighty acts of the Lord. This calling forms the theme of the Week of Prayer for Christian Unity for 2016.

Christianity was first brought to Eastern Latvia in the 10th century by Byzantine missionaries. Latvia's story includes the evangelising mission of St Meinhard two hundred years later, and other German missionaries. Riga was one of the first cities to adopt Luther's ideas in the 16th century. In the 18th century, Moravian missionaries revived and deepened Christian faith throughout the country. Their descendants were to play a central role in laying the foundations for national independence in 1918.

During the world wars and the Cold War, Christians were united in common witness to the Gospel - even to the point of martyrdom. They discovered their participation in the royal priesthood mentioned by St Peter through enduring torture, exile and death because of their faith in Jesus Christ. This bond of suffering created deep communion among Christians in Latvia. Through it, they discovered their baptismal priesthood, through which they were able to offer their sufferings in union with the sufferings of Jesus, for the good of others. The Christian churches were leaders in the independence movement of 1991 when unarmed citizens built barricades on the streets of Riga and stood shoulder to shoulder in defiance of the Soviet tanks.

Today, Latvia is a crossroads where Roman Catholic, Protestant and Orthodox regions meet. Because of this unique location, it is home to Christians of many different traditions, but no single one of them is dominant.

Gathered together by the Archbishop of Riga, members of a variety of church communities and projects in Latvia were asked to reflect on the chosen theme and the experience of their work. Each of the days has been prepared by one of these diverse church communities. The 8 Days are linked principally by the experience of being a Christian in Latvia. The authors from Latvia hope their experience of living the Christian faith will speak to ours. The main service is inspired by the verses from Peter's letter and Jesus' metaphors of salt and light which are important cultural themes for Latvia.

### **This Booklet**

The material included in this booklet is inspired by the Latvian churches. The Lections and the Starting Points are their words. The Reflections, Prayers, Questions and 'Go & Do' sections are the fruit of the Britain and Ireland writing group based on the Latvian churches' resource material. The Reflections are intended to stimulate discussion. Readers may be helped to know that they are written from within the Church traditions which they challenge.

To find out more on Latvian culture and history visit the CTBI website at:

[www.ctbi.org.uk/weekofprayer](http://www.ctbi.org.uk/weekofprayer)

### Eseciel 37:12-14

Yr wyf am agor eich beddau.

### Salm 71:19 -23

Y mae dy gryfder a'th gyfiawnder, O Dduw, yn cyrraedd i'r uchelder.

### Rhufeiniaid 8:15-21

Yr ydym yn cyfranogi o'i ddiodeffaint ef er mwyn cyfranogi o'i ogoniant hefyd.

### Mathew 28: 1-10

Nid yw ef yma, oherwydd y mae wedi ei gyfodi.

## Myfyrdod

### Y Garreg

Rydych chi wedi rholio'r garreg dros ddrws eich bedd cain a phreifafat.

Dyma farwolaeth gysurus!

Mae'r nos yn coffleidio corff drylliedig Crist, wedi ei lapio â hunanfodddhad ar ei graig gadarn o gred.

Ust!

Gofalwch nad oes neb yn rholio'r garreg i ffwrdd rhag i chi orfod mynd ymlaen yn gyfan, yn ôl ei droed i gwrdd â her y dydd.

Eglwys Gadeiriol Babyddol Riga a'r gofeb "Barikades" gyfagos yn coffau'r gwrthdaro yn erbyn milwyr Sofietaidd yn 1991



## Man cychwyn

### Myfyrdodau o Ganolfan Ieuentid Babyddol Archesgobaeth Riga

O'u profiad o drefnu Ffordd y Groes Ecwmenaidd flynyddol, mae CYCAR yn myfyrio ar ystyr y diodeffaint a'r atgyfodiad yn eu cyd-destun, a gweithredoedd ardderchog yr Arglwydd y mae Cristnogion yn cael eu galw i'w datgan.

Mae hanes Sofietaidd Latfia'n parhau i fwrw cysgod. Mae galar a phoen o glwyfau a achoswyd yn anodd eu maddau ac, fel y garreg ar

fedd Iesu, mae'n bosib i'r pethau hyn ein carcharu ni mewn bedd ysbrydol. Atgyfodiad Iesu yw'r digwyddiad ysgytwol sy'n agor ein beddau, yn ein rhyddhau rhag poen a chwerwder, ac yn ein hail-uno gyda'n brodyr a'n chwiorydd sydd hefyd wedi cael eu carcharu ac yn glwyfedig. Ac fel Mair Magdalen rhaid i ninnau "fynd ar frys" o'r foment fawr hon o lawenydd i ddweud wrth eraill am yr hyn mae'r Arglwydd wedi ei wneud.

## Cwestiynau

- Mae yna gysur od ynghylch bedd am ei fod yn ein diogelu rhag dieithrwrch a her atgyfodiad Crist. Beth ydyw'r hyn yn ein bywydau sy'n gwneud i ni wrthwynebu i'r garreg gael ei threiglo ymaith?
- Sut gallwn ni rannu ein profiad o Dduw gydag eraill?

## Gweddi

Arglwydd Iesu atgyfodedig, nid oedd y maen yn dramgwydd i ti; mae dy atgyfodiad yn dod â chariad, bywyd newydd, a heriau newydd.

Rho i ni nerth a dewrder i ganiatáu i ni ein hunain gredu yn hyn

ac felly i dreiglo ymaith y meini sy'n ein caethiwo ni, i gofleidio gogoniant bore'r Pasg, a chwrdd â'r credinwyr yr ydym wedi cael ein gwahanu oddi wrthynt. Yn dy enw di, O Arglwydd atgyfodedig, y gweddiwn. Amen.

## Mynd a gwneud ([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

- Cyfnewidiwch gerrig rhwng eglwysi gyda gair o heddwch neu fendith yn ysgrifenedig ar bob carreg, gan greu carnedd ym mhob man addoli. Pan fyddwch chi'n cydio yn y cerrig hyn, neu'n eu gweld, gweddiwch y bydd pob cymdeithas a chynulleidfau'n gerrig byw yn eich cymuned.
- Gyda'ch gilydd tacluswch eich gardd gymunedol leol neu feddau sydd wedi eu hesgeuluso yn eich mynwent.
- Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru - Yng Ngholombia mae pobl yn ysgrifennu enwau ar gerrig i goffáu'r rhai sydd wedi diflannu. Ewch i 'Mynd a Gwneud' i ddarllen stori Maria.



## Ezekiel 37:12-14

I am going to open your graves.

## Psalms 71:19 -23

Your power and your righteousness, O God, reach the high heavens.

## Romans 8:15-21

We suffer with him so that we may also be glorified.

## Matthew 28: 1-10

He is not here: he has been raised.

## Reflection

### The Stone

You have drawn the stone over the door of your fine and private tomb.

A cosy death this.

Night embraces the broken body of Christ, shrouded in complacency on its solid rock of dogma.

Shush!

Let no one roll away the stone lest you must go forth, whole, in his footsteps to meet the day's challenge.

Riga's Roman Catholic Cathedral and the adjacent "Barikades" memorial to the 1991 confrontations against Soviet troops



## Starting Point

### Reflections from the Catholic Youth Centre of the Archdiocese of Riga

From their experience of organising an annual Ecumenical Way of the Cross, the CYCAR reflect on the meaning of the passion and resurrection in their context, and the Lord's mighty acts that Christians are called to proclaim.

Latvia's Soviet history continues to cast a shadow. The grief and pain of wounds inflicted are difficult to forgive and, like the stone at Jesus'

tomb, they can imprison us in a spiritual grave. Jesus' resurrection is the earthshaking event that opens our graves, frees us from pain and bitterness, and re-unites us with our brothers and sisters who have been imprisoned and hurting too. And like Mary Magdalene we must "go quickly" from this great moment of joy to tell others what the Lord has done.

## Questions

- There is an odd comfort about a tomb because it protects us from the strangeness and challenge of Christ's resurrection. What is it in our lives that makes us resist the stone being rolled away?
- How can we share our experience of God with others?

## Prayer


Risen Lord Jesus,  
the stone was no barrier to you;  
your resurrection brings love,  
new life, new challenges.

Give us strength and courage  
to allow ourselves to believe this  
and so to roll back the stones

that imprison us,  
embrace the glory of the  
Easter morning,  
and meet the believers from whom  
we are separated.  
In your name, O risen Lord,  
we pray.  
Amen.

## Go and Do (see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

- Exchange stones between churches with a word of peace or blessing written on each stone creating a cairn in each place of worship. When you hold or see these stones pray that each fellowship and congregation would be living stones in your community.
- Together tidy up your local community garden/neglected graves in your cemetery.
- Blessed are those who mourn – In Colombia names are written on stones to commemorate the disappeared. Visit Go and Do to read Maria's story.

**Eseia 61: 1-4**

Y mae ysbryd yr Arglwydd Dduw arnaf.

**Salm 133**

Mor dda ac mor ddymunol yw i bobl  
fyw'n gytûn.

**Philipiad 2:1-5**

Cyflawnwch fy llawenydd trwy fod o'r  
un meddwl.

**Ioan 15: 9-12**

Yr wyf wedi dweud hyn wrthyhych er mwyn i'n  
llawenydd fod ynoch.

**Myfyrdod****Newyddion da**

Newyddion da yn wir!

Dyna bobl hyfryd,  
mewn rhan mor hyfryd o'r dre:  
dim mewnfudwyr,  
dim troseddwyd,  
dim carchar.

Ficer newydd:  
ifanc, gwyn, a diolch byth yn ddyd,  
i gyd-fynd â tho newydd yr eglwys  
a'r gegin newydd  
fwyaf diweddar  
a gostiodd filoedd.

Y tlodion?  
O, ie. Y tlodion ...

Onid oes cyfraniadau wedi  
eu hanfon  
i le o'r enw Trydydd Byd?  
Ac onid oes rhywun yn casglu  
tuniau a phethau  
i Fanc Bwyd yn rhywle?

Ond mae hon yn ardal dda.

Nid yw llonyddwch cysglyd  
ei Suliau'n gwybod am  
ocheneidiau angen,  
nac oernadau poen,  
na chri anobaith.

**Man cychwyn****Myfyrdodau gan y rhai sy'n llunio rhaglenni Cristnogol Radio  
Gwladwriaeth Latfia**

Yn y cyfnod Sofietaidd roedd  
presenoldeb Cristnogol drwy  
gyfryngau cyhoeddus yn amhosibl  
yn Latfia. Ers i'r wlad gael  
annibyniaeth, mae Radio  
Gwladwriaeth Latfia'n darlledu  
rhaglenni Cristnogol sy'n darparu  
fforwm ar gyfer arweinwyr o eglwysi  
amrywiol i ganfod ei gilydd. Mae'r  
dystiolaeth gyhoeddus hon o barch  
cydrhwng y naill a'r llall, cariad a  
llawenydd, wedi cyfrannu at ysbryd  
bywyd eciwmenaidd Latfia.

Mae llawenydd yr Efengyl yn  
galw ar Gristnogion i fyw  
proffwydoliaeth Eseia: "...i

**Cwestiynau**

- Mae'r Pab Francis yn ysgrifennu am 'lawenydd yr efengyl'. Beth ydych chi'n ei feddwl yw llawenydd yr efengyl i'r byd ac i'r eglwysi?
- Rhodd Crist yw llawenydd, ac mae'n ei roi trwy bobl eraill. Beth allwch chi ei dderbyn gan Gristnogion eraill fel y gall llawenydd Iesu fod ynoch chi, ac a fydd yn eich ysbrydoli i dystiolaethu?

**Gweddi**

Arglwydd Iesu, Arglwydd  
llawenydd,  
mae'r byd yn crefu am y  
newyddion da;  
mae'r byd yn crefu am dy gariad  
a'th lawenydd.

Llanw ni â'r cariad a'r

gyhoeddi newyddion da i'r tlodion".

Pan fyddwn yn drist gan ein  
dioddefaint hunain, efallai y byddwn  
yn brin o egni i ddatgan y llawenydd  
a ddaw oddi wrth Iesu. Hyd yn oed  
pan fyddwn yn teimlo ein bod yn  
methu â rhoi unrhyw beth i unrhyw  
un, trwy ddwyn tystiolaeth i'r  
ychydig sydd gennym, mae Iesu'n  
ei luosi ynom ni ac yn y rhai sydd  
o'n cwmpas. Pan fyddwn ni'n caru  
ein gilydd fel mae Iesu'n ein caru  
ni, felly rydyn ni'n darganfod cariad  
cydrhwng y naill a'r llall a'r  
llawenydd sydd yng nghalon ein  
gweddi am undod.

llawenydd hwn.  
Helpa ni i weld cyflwr pobl eraill,  
i glywed ocheneidiau angen,  
oernadau poen  
cri anobaith,  
ac i ymateb, bob amser, yn dy gariad  
a'th lawenydd  
di, ein Gwaredwr a'n Harglwydd. Amen

**Mynd a gwneud ([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))**

- Cytunwch ar gân o lawenydd i'w chanu ym mhob un o'r manau addoli yn ystod yr offwrwm.
- Gwahoddwch eich cymuned leol i gymryd rhan mewn gweithgaredd rydych chi'n mwynhau ei wneud gyda'ch gilydd, e.e. picnic neu am fynd ar daith gerdded.
- Gwyn eu byd y rhai sy'n dldion yn yr ysbryd – Yn Ethiopia caiff llawenydd ei ddwyn i mewn i gymunedau sy'n byw mewn tlodi. Ewch i 'Mynd a gwneud' i ddarllen stori Adi.





## Isaiah 61: 1-4

The spirit of the Lord God is upon me.

## Psalms 133

How very good and pleasant it is when kindred live together in unity!

## Philippians 2:1-5

Make my joy complete: be of the same mind.

## John 15: 9-12

I have said these things to you so that my joy may be in you.

## Reflection

### Good news

Good news indeed!

Such nice people,  
in such a nice part of town:  
no immigrants,  
no offenders,  
no prison.

A new vicar:  
young, white, and thankfully male,  
to match the new church roof  
and the state of the art  
kitchenette  
that cost thousands.

The poor?  
Ah yes. The poor...

Isn't something sent  
to a place called the Third World?

And doesn't someone collect tins  
and stuff  
for a food bank somewhere?

But this is a good area.

The sleepy stillness  
of its Sundays knows  
no sigh of need,  
no howl of pain,  
no cry of despair.

## Starting Point

### Reflections from the creators of Christian programming at Latvian State Radio

In the Soviet era a Christian presence through public media was impossible in Latvia. Since independence, Latvian State Radio broadcasts Christian programmes providing a forum for leaders from diverse churches to encounter one another. This public witness of mutual respect, love and joy contributed to the spirit of Latvian ecumenical life.

The joy of the Gospel calls Christians to live the prophecy of

Isaiah: '...to bring good news to the oppressed'.

When we are saddened by our own suffering, we may lack the vigour to proclaim the joy that comes from Jesus. Even when we feel unable to give anything to anyone, by bearing witness to the little that we have, Jesus multiplies it in us and in those around us. When we love one another as Jesus loves us, so we discover mutual love and joy at the heart of our prayer for unity.

## Questions

- Pope Francis writes of the 'joy of the gospel'. What do you think the joy of the gospel is for the world and for the churches?
- Joy is Christ's gift, and he gives it through other people. What can you receive from other Christians so that Jesus' joy may be in you, inspiring you to witness?

## Prayer

Lord Jesus, Lord of joy,  
the world craves good news;  
the world craves your love and joy.

Fill us with that love and joy.  
Help us to see the plight of others,  
to hear the sighs of need,

the howls of pain  
the cries of despair,  
and to respond, always,  
in the love and joy of you,  
our Saviour and our Lord.  
Amen.

## Go and Do (see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

- Agree on a song of joy to be sung in each place of worship during the offering.
- Invite your local community to participate in an activity you enjoy doing together. e.g. a picnic or a walk.
- Blessed are the poor in spirit – in Ethiopia joy is being brought to communities living in poverty. Visit Go and Do to read Adi's story.

**Jeremeia 31:10-13**

Dônt a chanu yn uchelder Seion.

**Salm 122**

Gweddïwch am heddwch i Jerwsalem.

**1 Ioan 4:16b-21**

Mae'r sawl sy'n aros mewn cariad yn aros yn Nuw.

**Ioan 17:20-23**

Rwy'n gweddïo ar iddynt oll fod yn un.

**Myfyrdod****'A hwythau felly wedi eu dwyn i undod perffaith'**

Rydych yn wylo am eich ffydd, oherwydd

ychydig a ddaw i'ch gwyliau; mae eglwysi'n anghyfannedd; ac offeiriaid yn griddfan.

Dyma, meddech chi, yw ail alltudiaeth.

"Bydd ein Duw holl gyfannol yn adfer ei bobl, fel y bu iddo adfer Israel"

Clywch air yr Arglwydd, Wrth i chi roi côt o siwgr am athrawiaeth, glastwreiddio litwrgi a mynd ar drywydd ofer cenhadaeth doredig:

"Ni all fy mhobl, wedi ymrannu ac yn ddiwedifar, fyth ailadeiladu Jerwsalem".

Y cysegr yn Eglwys Gadeiriol Babyddol Riga

**Man cychwyn**

**Ysbrydolwyd y myfyrdod hwn gan Chemin Neuf.** <http://www.chemin-neuf.org/>

Cymuned ryngwladol Babyddol yw Chemin Neuf gyda galwedigaeth eciwmenaidd sydd wedi bod yn bresennol yn Latfia ers y 2000au cynnar.

Mae aelodau Pabyddol a Lutheraidd yn profi llawenydd y 'bywyd cyffredin' yng Nghrist, sef "croesawu, caru, gwasanaethu, gweddïo a

thystiolaethu gyda Christnogion o draddodiadau amrywiol". Maen nhw hefyd yn profi'r boen o ddiffyg undod: "Ni all y byd gredu ein bod yn ddisgyblion Iesu pan na allwn dderbyn ynghyd gorff a gwaed Crist". Fel arwydd o'r rhaniad hwn, maen nhw'n rhoi plât a chwpan gwag ar yr allor yn ystod y weddi hwyrol.

**Cwestiynau**

- Beth mae'n ei olygu i fod yn 'un yng Nghrist'?
- Sut mae bod yn 'un yng Nghrist' ein helpu i oresgyn y rhagfarnau sydd wedi eu hachosi gan ganrifoedd o ymrannu ymhlith Cristnogion ar ein hynsoedd hunain yn ogystal ag ar dir mawr Ewrop?

**Gweddi**

Arglwydd Iesu, Arglwydd cyfanrwydd, mae dy weddi am undod ymhlith dy ddisgyblion wedi syrthio ar glustiau byddar a chalonnau caled.

Maddau i ni ein clustiau byddar, caeedig, maddau i ni ein calonnau caled sy'n cynnal amheuaeth, rhagfarn a rhaniad:

maddau i ni ein cenhadaeth doredig.

Agor ein calonnau, ein llygaid a'n meddyliau i'th gariad a'th wirionedd o fewn yr holl bobl Gristnogol a chryfha ynom y penderfyniad i weithio er mwyn adfer undod dy Eglwys a'th greadigaeth er gogoniant i'th enw. Amen

**Mynd a gwneud ([www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))**

- Gosodwch gwpan a phlât cymun yn ganolog yn eich man addoli.
- Cynhaliwch bryd o fwyd ar gyfer y gymuned ehangach.
- Gwyn eu byd y rhai addfwyn – Ym Mrasil mae cymuned Quilombola yn byw'n addfwyn ar y ddaear. Ewch i 'Mynd a gwneud' i ddysgu o'u stori.





**Jeremiah 31:10-13**

They shall come and sing aloud.

**Psalms 122**

Pray for the peace of Jerusalem.

**1 John 4:16b-21**

Those who abide in love, abide in God.

**John 17:20-23**

That they may become completely one.

## Reflection

### 'That they may become completely one'

You weep for your faith, for few come to your festivals; churches are desolate; priests groan.

This, you say, is a second exile. "Our retrograde God will restore his people, as he restored Israel."

Hear the word of the Lord, as you sugar-coat doctrine, water-down liturgy in the futile pursuit of a fractured mission:

"My people divided and unrepentant shall never rebuild Jerusalem".

The Sanctuary in Riga's Roman Catholic Cathedral



## Starting Point

This reflection is inspired by Chemin Neuf.

<http://www.chemin-neuf.org/>

Chemin Neuf is an international Catholic community with an ecumenical vocation that has been present in Latvia since the early 2000s.

Catholic and Lutheran members experience the joy of the 'common life' in Christ which is "to welcome, love, serve, pray and witness with

Christians from diverse traditions". They also experience the pain of disunity: "the world cannot believe that we are Jesus' disciples when we cannot receive together the body and blood of Christ." As a sign of this division, they place an empty paten and chalice on the altar during evening prayer.

## Questions

- What does it mean to you to be 'one in Christ'?
- How does being 'one in Christ' help us to overcome the prejudices caused by centuries of division amongst Christians in our own islands as well as in mainland Europe?

## Prayer

Lord Jesus, Lord of wholeness, your prayer for unity amongst your disciples has fallen on closed ears and on hard hearts.

Forgive us our closed ears, forgive us our hard hearts which perpetuate suspicion, prejudice and division:

forgive us our fractured mission.

Open our hearts, eyes and minds to your love and truth within all Christian people and strengthen in us the resolve to work to restore the unity of your Church and your creation to the glory of your name. Amen.

## Go and Do (see [www.ctbi.org.uk/goanddo](http://www.ctbi.org.uk/goanddo))

- Place a communion cup and plate centrally in your place of worship.
- Host a meal for the wider community.
- Blessed are the meek – in Brazil the Quilombola community are living meekly on the earth. Visit Go and Do to learn from their story.

Yn draddodiadol, cedwir yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol o 18-25 Ionawr (wyth niwrnod Pedr a Phaul). Fodd bynnag, bydd rhai grwpiau yn dewis amserau eraill o'r flwyddyn, yn enwedig oddeutu'r Pentecost, sy'n wyl symbolaidd o safbwynt undod yr eglwys. Penderfynwch chwi, gan gymryd sylw o ffactorau lleol. I ganiatáu eu defnyddio ar unrhyw adeg o'r flwyddyn, nodir y defnyddiau ar gyfer y Dyddiau â'r rhifau 1-8.

Gallwch dynnu allan y drefn gwasanaeth yng nghanol y daflen a'i llungopïo, os mynnwch. Neu gallwch lawrlwytho'r holl adnoddau oddi ar wefan CTBI, ac y mae croeso i chwi eu golygu a'u haddasu at ddefnydd lleol. Cydnabyddwch, os gwelwch yn dda, mai ffynhonnell y deunydd yw Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon, adnoddau at yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol.

~ ~ ~ ~ ~

The Week of Prayer for Christian Unity is traditionally observed from 18th to 25th January (the octave of St Peter and St Paul). However, some groups choose other times of the year, particularly around Pentecost which is a symbolic date for the unity of the church. Do make your own decision, taking local factors into account. To allow for use at any time in the year, the Days material uses the notation 1-8.

The order of service in the centre of the pamphlet can be pulled out and photocopied if you wish. Alternatively, all resources can be downloaded from the CTBI website and you are welcome to further edit or adapt them for local use. Please acknowledge the source of material as Churches Together in Britain and Ireland, Week of Prayer for Christian Unity resources.





Trefn Gwasanaeth Addoliad Eciwmenaidd  
Ecumenical worship service order



© Ysgrifennydd Cyffredinol Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon

© Churches Together in Britain and Ireland



## I. Y Dod Ynghyd

**Emyn Gorymdeithiol**      *Sefyll*

*Bydd y rhai sy'n arwain y dathliad yn dod i mewn a gallant gario Beibl, golau a halen.*

### Geiriau o groeso

**Arweinydd** Gyfeillion annwyl yng Nghrist, daethom ynghyd yn y gwasanaeth hwn o weddi am undod, i ddiolch i Dduw am urddas ein galwedigaeth Gristnogol, a ddisgrifir gan eiriau Sant Pedr: "*Onid yr ydych chiwi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch galwodd chiwi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef*". Gweddiwn eleni gyda Christnogion Latfia, sydd wedi paratoi'r gwasanaeth hwn, yn y gobaith y byddwn yn gallu tyfu yn ein cymundeb a'n Harglwydd Iesu Grist a chyda'n holl frodyr a'n chworiorydd.

*Gellir hefyd gynnig croeso anffurfiol.*

## II. Gweddïau am yr Ysbryd Glân

**Arweinydd** Ysbryd Glân, rhodd y Tad trwy ei Fab, Iesu Grist, preswylia ym mhawb ohonom, agor ein calonnau a chynorthwya ni i wrando ar dy air.

**Pawb** Ysbryd Glân, tyrd arnom..

**Arweinydd** Ysbryd Glân, Cariad Dwyfol, ffynhonnell undod a sancteiddrwydd, dangos i ni gariad Duw.

**Pawb** Ysbryd Glân, tyrd arnom..

**Arweinydd** Ysbryd Glân, Tân Cariad, pura ni, diddyma bob rhaniadau yn ein calonnau, yn ein cymunedau ac yn y byd, ac felly ein gwneud ni'n un yn enw Iesu.

**Pawb** Ysbryd Glân, tyrd arnom..

**Arweinydd** Ysbryd Glân, cryfhau ein ffydd yn Iesu, yn wirioneddol ddwyfol ac yn

wirioneddol ddynol, a gariodd ein pechodau o ymraniad i'r Groes a'n dwyn i gymundeb trwy ei Atgyfodiad.

**Pawb** Ysbryd Glân, tyrd arnom.

**Arweinydd** Dad, Mab ac Ysbryd Glân, preswylia ynom ni fel y gallwn ddod yn gymundeb o gariad a sancteiddrwydd. Gwna ni'n un ynot ti, sy'n byw ac yn teyrnasu'n dragwyddol.

**Pawb** Amen.

### Cân o Foliant

## III. Gweddïau Cymod

*Eistedd*

**Arweinydd** Mae Duw yn ein gwahodd ni i gymod a sancteiddrwydd. Gadewch i ni droi ein meddyliau, ein calonnau a'n cyrff i dderbyn gras cymod ar y ffordd i sancteiddrwydd.

*Distawrwydd*

**Arweinydd** Arglwydd, lluniaist ni ar dy ddelw dy hun. Maddau i ni pan na fyddwn yn anrhydeddu dy ddelwedd di ynom ni a'r byd a roddaist i ni. *Kyrie eleison. (Gellir ei ganu)*

**Pawb** Kyrie eleison.

**Arweinydd** Iesu, rwyt ti'n ein gwahodd i fod yn berffaith fel y mae ein Tad nefol yn berffaith. Maddau i ni pan fyddwn yn methu â bod yn sanctaidd, i fod yn bobl gywir ac i barchu hawliau dynol ac urddas. *Christe eleison.*

**Pawb** Christe eleison.

**Arweinydd** Arglwydd bywyd, nid marwolaeth o heddwch, nid rhyfel o oleuni, nid tywyllwch maddau i ni pan ddeuwn yn offerynnau rhyfel, marwolaeth ac anghyfiawnder ac yn methu ag adeiladu cymuned o gariad. *Kyrie eleison.*

**Pawb** Kyrie eleison.



## I. Gathering

### Processional Hymn *Stand*

*Those leading the celebration enter and may carry a Bible, light and salt.*

### Words of welcome

**Leader** Dear friends in Christ, we gather together in this service of prayer for unity, to thank God for the dignity of our Christian vocation, described in the words of St. Peter: “*You are a chosen race, a royal priesthood, a holy nation, God’s own people, in order that you may proclaim the mighty acts of him who called you out of darkness into his marvellous light*”. We pray this year with the Christians of Latvia, who have prepared this service in the hope that we may grow in our communion with our Lord Jesus Christ and with all our brothers and sisters.

*An informal welcome may also be offered.*

## II. Prayers for the Holy Spirit

**Leader** Holy Spirit,  
gift of the Father through his Son,  
Jesus Christ,  
dwell in us all, open our hearts  
and help us to listen to your voice.

**All** Holy Spirit, come upon us.

**Leader** Holy Spirit, Divine Love,  
source of unity and holiness,  
show us the love of God.

**All** Holy Spirit, come upon us.

**Leader** Holy Spirit, Fire of Love,  
purify us, removing all divisions  
in our hearts, in our communities and in  
the world,  
and so make us one in Jesus’ name.

**All** Holy Spirit, come upon us.

**Leader** Holy Spirit,  
strengthen our faith in Jesus,  
truly divine and truly human,

who carried our sins of division to the  
Cross and brought us to communion in  
his Resurrection.

**All** Holy Spirit, come upon us.

**Leader** Father, Son and Holy Spirit,  
dwell in us  
that we may become a communion of love  
and holiness.  
Make us one in you,  
who lives and reigns for ever and ever.

**All** Amen.

### Song of Praise

## III. Prayers of Reconciliation

*Sit*

**Leader** God invites us to reconciliation and  
holiness. Let us turn our minds, hearts and  
bodies to receive the grace of reconciliation  
on the way to holiness.

*Silence*

**Leader** Lord, you created us in your own image.  
Forgive us when we do not honour your  
image in us and the world that you gave us.  
*Kyrie eleison. (This may be sung)*

**All** Kyrie eleison.

**Leader** Jesus, you invite us to be perfect  
as our heavenly Father is perfect.  
Forgive us when we fail to be holy,  
to be people of integrity  
and to respect human rights and dignity.  
*Christe eleison.*

**All** Christe eleison.

**Leader** Lord of life, not of death  
of peace, not of war  
of light, not of darkness  
forgive us when we become instruments of  
war, death and injustice  
and fail to build a community of love.  
*Kyrie eleison.*

**All** Kyrie eleison.

**Arweinydd** Drugarog Dduw,  
llanw ni â'th ras a'th sancteiddrwydd.  
Gwna ni'n apostolion cariad ble bynnag  
yr awn.  
Gweddiwn hyn trwy Grist,  
ein Harglwydd.

**Pawb** Amen.

## IV. Cyhoeddi Gair Duw

**Arweinydd** Mae Gair Duw y byddwn yn ei glywed yn  
ffrwydrad o gariad yn ein bywydau.  
Gwrandewch a byddwch fyw!

**Pawb** Diolch a fo i Dduw.

### Eseia 55:1-3

Dewch i'r dyfroedd,  
bob un y mae syched arno;  
dewch, er eich bod heb arian;  
prynwch a bwyteuach.  
Dewch, prynwch win a llaeth,  
heb arian a heb dâl.  
Pam y gwariwch arian am yr hyn nad yw'n fara,  
a llafurio am yr hyn nad yw'n digoni?  
Gwrandewch arnaf yn astud, a chewch fwyta'r hyn  
sydd dda,  
a mwynhau danteithion.  
Gwrandewch arnaf, dewch ataf;  
clywch, a byddwch fyw.  
Gwnaf â chwi gyfamod tragwyddol,  
fy ffyddlondeb sicr i Ddafydd.

**Darllenydd** Gwrandewch a byddwch fyw!

**Pawb** Diolch a fo i Dduw.

### Salm 145:8-9, 15-16, 17-18

**Darllenydd** Bendithiaf dy enw'n dragwyddol.

**Pawb** Bendithiaf dy enw'n dragwyddol.

**Darllenydd** Graslun a thrugarog yw'r Arglwydd,  
araf i ddigio, a llawn ffyddlondeb.  
Y mae'r Arglwydd yn dda wrth bawb,  
ac y mae ei drugaredd tuag at ei  
holl waith.

**Pawb** Bendithiaf dy enw'n dragwyddol.

**Darllenydd** Try llygaid pawb mewn gobraith atat ti,  
ac fe roi iddynt eu bwyd yn ei bryd;  
y mae dy law yn agored,  
ac yr wyt yn diwallu popeth byw yn  
ôl d'ewyllys.

**Pawb** Bendithiaf dy enw'n dragwyddol.

**Darllenydd** Y mae'r Arglwydd yn gyfiawn yn ei  
holl ffyrdd  
Ac yn ffyddlon yn ei holl weithredoedd.  
Y mae'r Arglwydd yn agos at bawb sy'n  
galw arno,  
at bawb sy'n galw arno mewn gwirionedd.

**Pawb** Bendithiaf dy enw'n dragwyddol.

### 1 Pedr 2:9-10

Ond yr ydych chi yn hil etholedig, yn offeiriadaeth  
frenhinol, yn genedl sanctaidd, yn bobl o'r eiddo Duw  
ei hun, i hysbysu gweithredoedd ardderchog yr Un a'ch  
galwodd chi allan o dywyllwch i'w ryfeddol oleuni ef.  
<sup>10</sup>A chi gynt heb fod yn bobl,  
yr ydych yn awr yn bobl Dduw;  
a chi gynt heb dderbyn trugaredd,  
yr ydych yn awr yn rhai a dderbyniodd drugaredd.

**Darllenydd** Gwrandewch a byddwch fyw!

**Pawb** Diolch a fo i Dduw.

Gellir canu emyn

### Mathew 5:1-16

Pan welodd Iesu y tyrfaoedd, aeth i fyny'r mynydd,  
ac wedi iddo eistedd i lawr daeth ei ddisgyblion ato.  
Dechreuodd eu hannerch a'u dysgu fel hyn:

'Gwyn eu byd y rhai sy'n dlodion yn yr ysbryd, oherwydd  
eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

<sup>3</sup>Gwyn eu byd y rhai sy'n galaru, oherwydd cânt hwy eu  
cysuro.

<sup>4</sup>Gwyn eu byd y rhai addfwyn, oherwydd cânt hwy  
etifeddu'r ddaear.

<sup>5</sup>Gwyn eu byd y rhai sy'n newynu a sychedu am gyfi  
awnder, oherwydd cânt hwy eu digon.

<sup>6</sup>Gwyn eu byd y rhai trugarog, oherwydd cânt hwy  
dderbyn trugaredd.

<sup>7</sup>Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy  
weld Duw.

<sup>8</sup>Gwyn eu byd y rhai pur eu calon, oherwydd cânt hwy  
weld Duw.



**Leader** Merciful God,  
fill us with your grace and holiness.  
Make us apostles of love wherever we go.  
This we pray through Christ, our Lord.

**All** Amen.

## IV. Proclamation of the Word of God

**Leader** The Word of God that we will hear is an  
explosion of love in our lives.  
Listen and you will live!

**All** Thanks be to God.

### Isaiah 55:1-3 (NRSV)

Ho, everyone who thirsts,  
come to the waters;  
and you that have no money,  
come, buy and eat!  
Come, buy wine and milk  
without money and without price.  
<sup>2</sup>Why do you spend your money for that which is  
not bread,  
and your labour for that which does not satisfy?  
Listen carefully to me, and eat what is good,  
and delight yourselves in rich food.  
<sup>3</sup>Incline your ear, and come to me;  
listen, so that you may live.  
I will make with you an everlasting covenant,  
my steadfast, sure love for David.

**Reader** Listen and you will live!

**All** Thanks be to God.

### Psalms 145:8-9, 15-16, 17-18

**Reader** I will bless your name for ever and ever.

**All** I will bless your name for ever and ever.

**Reader** The Lord is gracious and merciful,  
slow to anger and abounding in  
steadfast love.  
The Lord is good to all,  
and his compassion is over all that he  
has made.

**All** I will bless your name for ever and ever.

**Reader** The eyes of all look to you,  
and you give them their food in due season.  
You open your hand,  
satisfying the desire of every living thing.

**All** I will bless your name for ever and ever.

**Reader** The Lord is just in all his ways,  
and kind in all his doings.  
The Lord is near to all who call on him,  
to all who call on him in truth.

**All** I will bless your name for ever and ever.

### 1 Peter 2:9-10 (NRSV)

But you are a chosen race, a royal priesthood, a holy  
nation, God's own people, in order that you may  
proclaim the mighty acts of him who called you out of  
darkness into his marvellous light.

<sup>10</sup>Once you were not a people,  
but now you are God's people;  
once you had not received mercy,  
but now you have received mercy.

**Reader** Listen and you will live!

**All** Thanks be to God.

A Hymn may be sung

### Matthew 5:1-16 (NRSV)

When Jesus saw the crowds, he went up the mountain;  
and after he sat down, his disciples came to him. Then  
he began to speak, and taught them, saying:

<sup>3</sup>Blessed are the poor in spirit, for theirs is the kingdom  
of heaven.

<sup>4</sup>Blessed are those who mourn, for they will be  
comforted.

<sup>5</sup>Blessed are the meek, for they will inherit the earth.

<sup>6</sup>Blessed are those who hunger and thirst for  
righteousness, for they will be filled.

<sup>7</sup>Blessed are the merciful, for they will receive mercy.

<sup>8</sup>Blessed are the pure in heart, for they will see God.

<sup>9</sup>Gwyn eu byd y tangnefeddwyr, oherwydd cânt hwy eu galw'n blant i Dduw.

<sup>10</sup>Gwyn eu byd y rhai a erlidiwyd yn achos cyfiawnder, oherwydd eiddynt hwy yw teyrnas nefoedd.

<sup>11</sup>Gwyn eich byd pan fydd pobl yn eich gwaradwyddo a'ch erlid, ac yn dweud pob math o ddrygair celwyddog yn eich erbyn, o'm hachos i.

<sup>12</sup>Llawenhewch a gorfoleddwch, oherwydd y mae eich gwobr yn fawr yn y nefoedd; felly yn wir yr erlidiwyd y proffwydi oedd o'ch blaen chwi.

<sup>13</sup>Chwi yw halen y ddaear; ond os cyll yr halen ei flas, â pha beth yr helltir ef? Nid yw'n dda i ddim bellach ond i'w luchio allan a'i sathru dan draed.

<sup>14</sup>Chwi yw goleuni'r byd. Ni ellir cuddio dinas a osodir ar fryn. <sup>15</sup>Ac nid oes neb yn goleuo kannwyll ac yn ei rhoi dan lestr, ond yn hytrach ar ganhwylbren, a bydd yn rhoi golau i bawb sydd yn y tŷ. <sup>16</sup>Felly boed i'ch goleuni chwithau lewyrchu gerbron eraill, er mwyn iddynt weld eich gweithredoedd da chwi a gogoneddu eich Tad, yr hwn sydd yn y nefoedd.

**Darllenydd** Gwrandewch a byddwch fyw!

**Pawb** Diolch a fo i Dduw.

## Pregeth/Homili

### Emyn

## V. Gweithred o Ymrwymiad i fod yn Halen a Goleuni

*Bydd yr Arweinydd wedyn yn rhoi'r gwahoddiad canlynol i'r gynulleidfa:*

Rydym wedi gwrandao ar Air Sanctaidd Duw yr hwn a anrhydeddwn ac a drysorwn,  
Byddwn yn cario'r Gair hwn allan i'r byd,  
Oherwydd yr ydym ynghlwm wrth un genhadaeth,  
I fod yn Halen y Ddaear, i fod yn Oleuni'r Byd,  
Ac i gyhoeddi gw eithredoedd ardderchog yr Arglwydd.

Fel arwydd o'r genhadaeth gyffredinol hon yr ydym yn rhan ohoni, gwahoddwn chi i ddod ymlaen i oleuo kannwyll unigol o'r un fflam hon.  
Bydd y rhain yn aros ynghyn tan ar ôl y gwasanaeth.

Wrth i chi ddychwelyd i'ch sedd, gwahoddwn chi i flasu'r mymryn lleiaf o halen ac i fyfyrto ar eiriau ein Harglwydd, a'n cymharodd ni i halen y ddaear.

## VI. Gweddïau gobaith

